Cynllun Gwers

Disgrifiad

Dylid defnyddio'r cynllun gwers hwn ochr yn ochr â'r adnodd dysgu rhyngweithiol 'Wela i di yn yr Undeb Credyd'.

Ystod Oedran

Cafodd y deunyddiau hyn eu creu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a'r gynulleidfa darged yw myfyrwyr blwyddyn 10 yng Nghymru neu'r tu hwnt. Fe all y deunyddiau gael eu defnyddio hefyd gydag unrhyw ystod oedran arall. Gallwch hefyd edrych ar ddolenni sy'n cynnwys deunyddiau ar gynhwysiant ariannol ar gyfer oedolion a grwpiau eraill o bobl ifanc yn ein hadran dolenni.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Gall codi ymwybyddiaeth am Undebau Credyd fod yn berthnasol i sawl maes yn dibynnu ar sut mae'r athro neu hwyluswr eisiau defnyddio'r adnodd. Rydyn ni'n awgrymu y gallai'r adnodd gael ei ddefnyddio i ddysgu'r pynciau TGAU canlynol:
Astudiaethau Busnes – cyfranddaliadau, busnesau cydweithredol
Drama – delio â dyledion, siarad am arian
Mathemateg – esbonio cyfraddau llog, cyllidebu
ABCh – gallu ariannol (rheoli dyledion a chynilo) a gwirfoddoli
Bagloriaeth Cymru – Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB) – economaidd a chymdeithasol
Os bydd y disgyblion yn sefydlu pwynt casglu Undeb Credyd, bydd y gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd â Menter Tîm.

Sgiliau Allweddol

Hefyd, byddai sefydlu Undeb Credyd yn yr ysgol yn helpu disgyblion yn y meysydd sgiliau allweddol CBAC canlynol:
Gweithio gydag eraill – dull cydweithredol o weithio – byddai'n cwmpasu sgiliau proses a sgiliau rhyngweithiol. (GE2.2 Gweithio gydag eraill i gyrraedd y nodau a osodwyd; a GE3.2 Ceisio ffyrdd o ddatblygu cydweithrediad a gweld sut yr ydych yn llwyddo i gyflawni eich amcanion). Byddai hefyd yn cwmpasu gwaith cynllunio – GE2.1 ac/neu GE3.1.
Cyfathrebu – Gallai'r disgyblion roi cyflwyniad i'w cyd-ddisgyblion am y ffaith eu bod yn agor pwynt casglu, fel ffordd dda o roi cyhoeddusrwydd i'r pwynt casglu newydd. (C2.1b ac/neu C3.1b).

Cynllun Gwers

Hyd

Mae'r wers isod wedi'i chreu i bara 50 munud o leiaf. Gallech wneud y gweithgareddau ychwanegol yn ystod ail wers.

Yr Adnodd Rhyngweithiol

Mae'r adnodd rhyngweithiol yn cynnwys yr holl wybodaeth ar y rhestr hon:

- 4 fideo byr ar ffurf naratif
- Cwis sy'n profi gwybodaeth y defnyddwyr
- Pwyntiau dysgu 'rollover' gyda gwybodaeth am undebau credyd (Y Gwahaniaeth Undeb Credyd, Undebau Credyd o Gwmpas y Byd, Sut Mae'n Gweithio, Dweud eich Dweud)
- Swydd-ddisgrifiadau gweithwyr Undebau Credyd
- Sut i agor pwynt casglu Undeb Credyd yn eich ysgol – astudiaeth achos
- Os yw eich ysgol chi'n agor pwynt casglu Undeb Credyd, gallech bostio manylion y fenter ar y wal.
- Siart cymharu benthyciadau
- Geirfa

Adnoddau Gofynnol

Lawrlwythwch yr adnodd ar y cyfrifiadur y byddwch yn ei ddefnyddio. Bydd angen Adobe Flash arnoch i'w chwarae. Os nad oes gennych Adobe Flash, bydd angen i chi ei lawrlwytho pan fydd neges yn ymddangos yn gofyn i chi wneud hynny.
Gall y sesiwn gael ei chynnal ar sgrin neu ar fwrdd gwyn i'r dosbarth cyfan, neu'n well byth, ar gyfrifiaduron unigol os oes rhai ar gael i'r disgyblion eu defnyddio. Fel hyn, byddan nhw'n gallu treulio ychydig o amser yn archwilio'r adnodd ac yn casglu mwy o wybodaeth .

Os hoffech chi i'r disgyblion wneud nodiadau yn ystod y fideos, bydd angen papur ac ysgrifbinnau arnoch.

Sut i ddefnyddio'r cynllun gwers hwn

Rydyn ni'n awgrymu dilyn y cynllun isod wrth ddefnyddio'r adnodd. Ond gallwch fynd drwy'r deunyddiau yn unrhyw drefn. Gallwch ddewis cyflwyno'r sesiwn o dan arweiniad hwyluswr neu adael i'r adnodd arwain y disgyblion.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Munud	Amser rhedeg	Gweithgaredd		Gweithgaredd	Pwyntiau dysgu
05	05	Cyflwynwch eich hun. Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw erioed wedi clywed am Undebau Credyd. Beth yw eu barn am Undebau Credyd?	Grŵp cyfan neu barau		Pennu lefel eu hymwybyddiaeth a'u barn am Undebau Credyd
05	10	Rhowch 5 munud i'r disgyblion edrych ar yr adnodd. Gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd i'r ddogfen 'Y Gwahaniaeth Undeb Credyd'		Dylid defnyddio'r llygoden neu ysgrifbin y bwrdd gwyn wrth archwilio.	
3	13	Gwyliwch fideo 1			
7	20	Gofynnwch i'r dosbarth: Beth yw'r prif wahaniaethau/bethau sy'n debyg rhwng undebau credyd a banciau? Dylai'r disgyblion gymryd nodiadau wrth wylio'r fideo neu ateb cwestiynau ar lafar wedyn. Atgyfnerthwch hyn drwy edrych ar 'rollover': 'Sut mae Undeb Credyd yn gweithio'	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		• Yr aelodau sydd berchen arno • Mae yn eich cymuned leol • Nid cyfranddalwyr gyda chyfrannau mawr yn y cwmni sy'n rheoli Undebau Credyd. Mae gan aelodau (neu gyfranddalwyr) Undebau Credyd un bleidlais yr un. • Gall Undebau Credyd dalu buddran. • Maen nhw'n cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Munud	Amser rhedeg	Gweithgaredd		Gweithgaredd	Pwyntiau dysgu
2	22	Gwyliwch fideo 2	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		
3	25	Gofynnwch i'r dosbarth: Beth yw benthyg cyfrifol?	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		• Peidio â chynnig benthyciadau i bobl a fyddai'n cael trafferth talu'n ôl (gallai trafod benthycwyr arian didrwydded ennyn diddordeb (loan sharks)). • Newid yr amodau talu ar gyfer pobl mewn trafferthion, e.e. sydd wedi colli eu swydd. Felly, bydden nhw'n talu llai dros gyfnod hirach. • Cynnig benthyciadau ar gyfraddau rhesymol (i bobl dros 18 oed sydd wedi cynilo gyda nhw).
2	27	Gwyliwch fideo 3	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		
3	30	Gofynnwch i'r dosbarth: Beth yw manteision dechrau pwynt casglu?	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		• Profiad o wirfoddoli • Sgiliau cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ar y CV • Gallai gyfrannu at Fagloriaeth Cymru/Gwobr Dug Caeredin.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Munud	Amser rhedeg	Gweithgaredd		Gweithgaredd	Pwyntiau dysgu
2	32	Gwyliwch fideo 4	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		
8	40	Edrychwch ar adnoddau eraill (e.e. Undebau Credyd o gwmpas y byd, Dweud eich dweud, Disgrifiadau swyddi, a'r Siart cymharu benthyciadau)	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		
7	47	Cwis Bydd hwn yn profi eu dealltwriaeth ac yn atgyfnerthu'r pwyntiau dysgu. Efallai y bydd angen i'r disgyblion edrych ar yr adnoddau eraill, os nad ydyn nhw eisoes wedi gwneud hynny.	Dosbarth cyfan, grwpiau neu barau		
2	49	Atgoffwch y dosbarth/athro am adnoddau pellach a chloi'r sesiwn.			

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Gweithgareddau ychwanegol

Chwarae Rôl 1 a 2
Chwaraewch fideo 2 am fenthyg cyfrifol.
Soniwch am y mater o roi benthyg arian ar gyfraddau llog uchel. Gofynnwch i'r disgyblion ddweud pryd byddai gan rywun ddiddordeb yn y math hwn o fenthyciad a pham.
Dangoswch y siart cymharu benthyciadau – rhowch 5 munud i'r disgyblion ei ddarllen.

Ar gyfer pob chwarae rôl

Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach.
Rhowch 5 munud iddyn nhw ddarllen y cyfarwyddiadau.
Rhowch 15 munud i baratoi'r ddeialog.
Ymarfer/actio am 10-20 munud gyda'r dosbarth i gyd yn gwrando.

Mae Chwarae Rôl 2 yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymarfer eu dealltwriaeth o gyfraddau llog.

Chwarae Rôl 3
Chwaraewch fideo 3. Mae'r chwarae rôl hwn yn helpu disgyblion i feddwl am gynilo.

Chwarae Rôl 4
Mae hwn yn ymwneud ag ymarfer bod mewn sefyllfaoedd democrataidd a chyflwyno safbwyntiau. Gallai'r disgyblion wneud y chwarae rôl hwn ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau o ddau neu dri.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Chwarae Rôl 1 Camau byrbwyll

Mae Mrs Brys angen cael benthyciad ar frys i dalu am atgyweirio ei char. Mae hi wedi cael taflen gan fenthyciwr arian di-drwydded/benthyciwr stepen drws yn cynnig benthyciad hawdd. Mae'r print mân yn dweud bod y llog yn 200%. Mae ei mab/merch newydd gael gwers am Undebau Credyd yn yr ysgol ac mae'n siarad am y wers. Datblygwch ddeialog ar gyfer y cymeriadau yn dangos beth mae Mrs Brys yn penderfynu ei wneud. Ysgrifennwch olygfa lle mae'n gwneud ei phenderfyniad, lle mae'n talu ei benthyciad mewn mis a lle mae'n talu mewn chwe mis. Defnyddiwch y siart cymharu benthyciadau i'ch helpu.

Cymeriadau:
Mrs Pwyll
Ryan/Jamie
Benthyciwr

Chwarae Rôl 2 Newid Amodau Benthyciad

Mae cymydog Mrs Pwyll, Mr Jones, wedi cael benthyciad gan ei Undeb Credyd ond mae wedi colli ei swydd. Mae'n poeni beth y dylai wneud nesaf: mae'n ystyried cymryd benthyciad arall. Mae Mrs Pwyll yn dweud wrtho am fynd at yr Undeb Credyd i gael gwybodaeth am newid amodau'r benthyciad. Datblygwch ddeialog a gwnewch amserlen newydd ar gyfer ei daliadau.

Cymeriadau:
Mrs Pwyll
Mr Jones
Gweithiwr Undeb Credyd

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Gweithgareddau ychwanegol

Chwarae Rôl 3 Cynilion

Tri ffrind yn sgwrsio am faint maen nhw'n mynd i'w gynilo bob wythnos a beth byddan nhw'n ei wneud â'u cynilion. Datblygwch ddeialog i ddangos eich syniadau.

Cymeriadau:
Dyfeisiwch y cymeriadau.

Chwarae Rôl 4 Dweud eich Dweud

Mae'n ddiwrnod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Undeb Credyd.
Mae Jamie newydd droi 18 oed ac mae wedi bod yn aelod ers rhai blynyddoedd bellach. Yn ogystal â'r pwynt casglu, mae wedi gwneud rhywfaint o waith gwirfoddol i helpu gyda chyhoeddusrwydd yr Undeb Credyd. Mae hi wedi penderfynu sefyll yn etholiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae hi'n cyflwyno ei hun ac yn dweud pam mae hi eisiau bod ar y bwrdd. Awgrymwch ddeialog.
Cymeriadau:
Jamie
Cadeirydd (sy'n cyflwyno)

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Cynllun Gwers

Dechrau Undeb Credyd yn eich ysgol

Darllenwch y dogfennau 'Sut i sefydlu undeb credyd yn eich ysgol' a'r astudiaeth achos.

Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, gallech ddechrau drwy gynnal arolwg ymysg disgyblion yr ysgol i weld a fyddai galw amdano. Yna, gallech wneud cyflwyniad i'ch cyfoedion am Undebau Credyd.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!